CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni **Nos Lun 8fed o Dachwedd 2021 am 6.30 y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL :	Cyng. Margaret Thomas	-	Cadeirydd
	Cyng. Eleri Lloyd Burns	-	Cyng. Ieuan G. Davies
	Cyng. Gwenan Evans	-	Cyng. Arwel Môn Hughes
	Cyng. Victor Hughes	-	Cyng. Jamie Jones
	Cyng.Terry Jones	-	Cyng. Henry D. Jones
	Cyng. John Lee	-	Cyng. J. Egryn Lewis
	(Cyng. John Lee a Cyng. Lewis wedi ymddiheuro am ymuno yn hwyr i'r Cyfarfod)		
	Cyng. J. Huw Owen	-	Cyng. Non Wyn Parry
	Cyng. Richard Parry	-	Cyng. Christine Roberts.
HEFYD YN BRESENNOL :	Cyng. Dylan W. Rees	-	Cynghorydd Sir
	Mr. Huw Rhys Parry	-	Clerc
	Ms. Linda Powell	-	Cymhorthydd Clerigol.

21/099 **YMDDIHEURIADAU :** Cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru.

21/100 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Cyng. Eleri Lloyd Burns – Eitem 21/104.1 o'r Rhaglen; Ymgynghoriad Cynllunio – FPL/2021/116 – Cais Llawn i godi annedd ar dirt u cefn I Y Gilfach, Llangefni.

21/101 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolydd.

21/102 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 11.10.2021**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cwestiynau/sylwadau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

21/103 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 11.10.2021**
Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd I'r Aelodau gysylltu drwy'r Swyddfa, o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.
Clerc yn cadarnhau fod dim, materion yn codi o'r Cofnodion wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

21/104 **CYNLLUNIO**

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO 13.10.2021 AC 03.11.2021 AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO MEDI/HYDREF 2021**
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
Datblygiad Tŷ Hen a Maes Derwydd, Llangefni : Cyng. J. Huw Owen yn holi os oes unrhyw wybodaeth bellach wedi ei dderbyn ar y Cais uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim diweddariad nac gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn yn y Swyddfa ers Mis Awst. Dim Trafodaeth. **Derbyn.**

PARHAD 21/104

2 **Datblygu Tai yn Llangefni -** Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw at anghenion tai yn Llangefni ac yn pryderu fod mwy nac sydd eu hangen o Ystadau Tai yn cael eu hadeiladu o gwmpas y dref. Awgrymwyd trefnu cyfarfod gyda Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn i drafod beth ydi'r anghenion a beth sydd wedi eu caniatáu ynglŷn ag datblygu tai yn y dyfodol yn Llangefni. **PENDERFYNWYD** anfon llythyr at Swyddogion y Cyngor Sir yn gofyn am gyfarfod gyda Dirprwyo'r Cyngor Tref i drafod y pryderon uchod.

21/105 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBON GAN Y MAER

1 **Arddangosfa Ffenestr Nadolig :** Llythyr yn cael ei anfon at Holl Fusnesau'r Dref i roi gwybod o'r Gystadleuaeth – Beirniadu yn ystod prynhawn 13eg o Ragfyr 2021.
Agoriad Swyddogol - Oriel Gelf, Stryd yr Eglwys 25.11.2021 : Rhun ap Iorwerth MS yn lansio'r Stiwdio ar agor gyda gwahoddiad i'r Maer fod yn bresennol hefyd.

2 **SCAM :** Cyfeiriad e-bost y Cadeirydd wedi cael ei ddefnyddio fel SCAM – Aelodau yn ymwybodol o hyn ac yn wyliadwrus. Cwmni "IT" y Cyngor Tref yn edrych i mewn i sut mae hyn wedi digwydd. **Derbyn.**

3 **M SPARC - Ymweliad "Team Building" i'r Fynwent - 02.11.2021 :** Cais wedi ei dderbyn gan Swyddog Cytundebau & Masnachol, M SPARC, yn gofyn am gyfle i Grŵp o Wirfoddolwyr gael ymarfer "Team Building" fel profiad o weithio fel Timau er budd y Gymuned. Clerc wedi trefnu iddynt dreulio prynhawn yn y Fynwent gyda'r tasgau o Walio, Tynnu a chlirio Eiddew a chwynnu cyffredinol. Y Timau wedi gwneud gwaith ardderchog ac wedi mwynhau'r profiad. Cadeirydd yn diolch yn fawr iddynt am yr holl waith.

21/106 MATERION YN CODI GAN AELODAU

1 **Cyng. Jamie Jones – Sefydlu Clwb Gwyddbwyll (Chess Club) :** Cyng. Jones yn rhannu syniadau a chynlluniau gyda'r Aelodau i geisio sefydlu Clwb Gwyddbwyll yn Llangefni, ac yn trafod lleoliadau sydd ganddo dan sylw.
Cyng. Jones yn y camau cynnar o edrych i mewn i ariannu'r fenter ac yn holi os ydyw yn bosib defnyddio'r Lwfans Blynyddol o £150 sydd ar gael i Gynghorwyr trwy IRPW i brynu nwyddau ar gyfer yr uchod. Clerc yn esbonio fod y Lwfans yma ar gyfer gwaith gweinyddol Cynghorwyr, sef, argraffu dogfennau, galwadau ffôn a nwyddau traul gyffredinol, ac yn anffodus ddim ar gael tuag at ariannu'r uchod. Cadeirydd yn cefnogi Cyng. Jones ac yn diolch iddo am rannu ei syniadau ac yn gobeithio gall y Cyngor Tref roi cymorth iddo. Cyng. Victor Hughes yn gofyn i Cyng. Jones roi cais ysgrifenedig i'w ystyried gan yr Aelodau. **Derbyn.**

21/107 ADRODDIAD Y CLERC

Clerc yn adrodd ar y canlynol :

1 **Mynwent Newydd – Tir Penlan –** Wedi cyfarfod gyda'r Asiant a Dirprwyo'r Cyngor Tref 04.11.2021 i drafod y camau nesaf. Asiant yn awgrymu, trefnu cyfarfod mor fuan ag y bo modd, gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn, i roi arweiniad i ni o'r gofynion o flaen cyflwyno Cais Cynllunio. **Derbyn.**
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Arwel Môn Hughes yn holi ynglŷn â sefyllfa gosod y caeau yn Penlan fel tir pori dros fisoedd y Gaeaf. Clerc yn ymateb fod dim cytundeb mewn lle ar hyn o bryd ond fod y cynnig yma yn rhan o Gynllun Busnes y Cyngor Tref ar gychwyn datblygu'r tir yn safle Penlan.

PARHAD 21/107

Cyng. Victor Hughes yn ychwanegu'r pwysigrwydd o ail-gynnal Cyfarfod o Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae er mwyn trafod ac ateb cwestiynau yn ymwneud a thiroedd y Cyngor Tref. **Derbyn.**

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc rhoi trefniadau mewn lle i gynnal Cyfarfod o'r Is-bwyllgor uchod a chyflwyno Cofnodion yn fisol i'r Cyfarfod Llawn.

2 **(a) Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 03.12.2021 -** Oherwydd amgylchiadau bregus Covid-19 sydd yn parhau, dim ond trefniadau i droi'r goleuadau Nadolig ymlaen sydd mewn lle. Nid oes adloniant nac gweithgareddau wedi eu trefnu eleni. Bydd y Goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen am 6.00y.h. Nos Wener, 3ydd o Ragfyr 2021 a chroeso i chi fod yn bresennol wrth Gloc y Dref.

(b) Sul y Cofio 14.11.2021 - Trefniadau mewn lle ar gyfer y Gwasanaeth. Fel yn y gorffennol, Aelodau i sefyll o amgylch y Gofeb, pwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r Swyddfa o flaen llaw os byddwch yn bresennol er mwyn dilyn rheolau pellter cymdeithasol ar y safle yma.

3 **Melin y Graig, Llangefni -** Aelodau i ystyried cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn i drosglwyddo'r Felin i feddiant y Cyngor Tref. Clerc yn adrodd fod dim sylwadau ynglyn a'r cais uchod wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. Mewnbwn gan rhai o'r Aelodau yn ymwneud a'r costau ychwanegol i'r Cyngor Tref a hefyd yn datgan pryder fod y Felin ar hyn o bryd yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion iechyd a diogelwch. Cyng. Victor Hughes yn adrodd fod y Felin yn dirnod hanesyddol a pwysig i'r dref ac yn awgrymu holi os oes grantiau ar gael i gynnal a chadw safleoedd fel y Felin, gan ei fod yn Ased Cymunedol.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd, cyn gwneud unrhyw benderfyniad, bod angen mynd yn ôl at Swyddogion y Cyngor Sir i ofyn am adroddiad ysgrifenedig sydd yn egluro yn glir y costau cyfreithiol a thelerau'r trosglwyddiad. Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu buasai trefnu ymweliad safle o fudd cyn symud ymlaen.

Cadeirydd yn crynhoi fod y Felin yn hanesyddol, yn Adeilad Rhestredig ac yn Ased Cymunedol i'r dref a bod angen edrych ar yr opsiynau i gyd cyn gwneud unrhyw ymrwymiad.

Cynghorydd Sir, Dylan Rees yn cytuno fod angen gwarchod y Felin o safbwynt hanesyddol a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cyfathrebu gyda Mudiadau eraill y Dref i roi cyfle iddynt fynegi diddordeb i drosglwyddo'r Felin. **Derbyn.**

4 **Diweddariad ar y canlynol :**

(a) Trosglwyddo Safle'r Orsedd – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi ail-ffensio'r Safle ar hyd uno chôr o'r ffordd ac wedi rhoi giât newydd ger mynedfa Ysbyty Cefni. Cyfreithiwr y Cyngor Tref yn y broses o gwblhau'r Cytundeb Terfynol.

(b) Trosglwyddo Cae Criced - Cyfreithiwr ar ran yr Ymddiriedolwyr wedi derbyn Barn y Bargyfreithiwr ac wedi ei anfon ymlaen at Gyfreithiwr y Cyngor Tref.

Derbyn.

21/108 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL**

1 **Un Llais Cymru – Hyfforddiant :**

14.10.2021 – Code of Conduct – Module 9;

04.11.2021 – Advanced Local Government – Module 21;

Adborth gan Cyng. Eleri Ll. Burns yn dilyn mynychu'r uchod a'i bod rŵan yn deall y Ddogfen "Code of Conduct" ac wedi rhannu Taflenni gyda'r Maer. Cyng. Burns yn diolch am y cyfle ac wedi mwynhau fod yn rhan o'r Hyfforddiant.

21/109 CYLLID

1 I Dderbyn Mantolen Ariannol Hydref 2021

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

Clerc yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn tynnu sylw at y canlynol : Clerc yn esbonio'r taliadau :

(a) 26.10.2021 - Corona Energy - Nwy Llys - £902.18 : Contract cyn-berchennog y Llys gyda Chwmni Corona Energy - Tariff drud mewn cymhariaeth gyda Chwmnïau eraill. Taliad terfynol i drosglwyddo i Gwmni mwy cystadleuol;

(b) 27.10.2021 - Cwmni Roebuck Storage - Symud i'r Llys - £290.00 : Shredio a chael gwared yn ddiogel o focsys o waith papur o Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir cyn symud i'r Llys.

(c) 29.10.2021 - B G Business - Trydan - £540.00 : Taliadau am Drydan ers y cyfnod pan fu'r Cyngor Tref symud i'r Llys, gyda'r biliau wedi cynyddu i swm Sylweddol. Oherwydd hyn mae Cytundeb mewn lle gyda British Gas I dalu fesul dipyn trwy "Standing Order". Erbyn hyn mae'r swm wedi gostwng a'r taliadau bron wedi gorffen. Yn y broses o drosglwyddo i dariff gorau gyda Chwmni Scottish Power.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio derbyn Mantolen Ariannol Hydref 2021. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Hydref 2021.

2 **Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol :** Cyfarfod i'w drefnu ar gyfer 01.12.2021.

21/110 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cynghorydd Sir, Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Diweddariad Cynllun estyniad Ysgol y Graig : Ymgynghoriad Cyhoeddus o 28 diwrnod o flaen cyflwyno'r Cais Cynllunio;
- Pryderon Cyng. Victor Hughes yn ymwneud ac adeiladu mwy o dai : Cynllun Datblygu ar y Cyd yn cael ei adolygu - Chwe wythnos o Ymgynghoriad i dderbyn sylwadau;
- Pwyllgor Gwaith : Treth Cyngor i ail-dai i'w gynyddu 50% mis Mai 2022;
- Glaw Mawr wythnos diwethaf wedi achosi llifogydd yn y dref.

Cadeirydd yn diolch I Cyng. Rees am ei fewnbwn.

21/111 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 Un Llais Cymru :

(a) Peilot o Becyn Hunanasesu Cynghorau Cymuned a Thref 07.10.2021;

(b) Fersiwn Ddiwygiedig o'r Model Brotocol ar gyfer Datrys Cwynion – Hydref 2021

Dim Trafodaeth ar yr uchod.

2 **Llywodraethwyr Ysgol Corn Hir :** Cyng. Richard Parry yn adrodd fod Pennaeth yr Ysgol wedi cysylltu fod dim cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr, oherwydd bod tymor Cyng. J. Huw Owen wedi dod i ben. Clerc yn awgrymu ail-benodi Cynrychiolydd wrth dderbyn cais ysgrifenedig gan Bennaeth yr Ysgol. Cyng. Jamie Jones yn dangos diddordeb yn llenwi'r swydd yma. **PENDERFYNWYD** gofyn i Bennaeth yr Ysgol anfon cais ysgrifenedig i'r Swyddfa. Cyng. Richard Parry am ddod a hyn i sylw'r Pennaeth.

21/112 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd 2021 :

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**

2 **Materion Eraill - Derbyn.**

21/113 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **Ffurflen i Ddatgan Diddordeb Ariannol neu Ddiddordeb Ymgofrestredig**

Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau, sydd ddim wedi anfon y Ffurflen uchod yn ôl, i'w chwblhau a'i dychwelyd i'r Swyddfa. Mae yn ofyniad statudol i gwblhau'r Ffurflen uchod.

21/114 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Lun 13.12.2021 trwy Gyrfwng TEAMS.**

Dyddiadau Cyfarfodydd Is-bwyllgorau i'w hanfon allan maes o law.

CYNG. MARGARET THOMAS

CADEIRYDD